# D. TECWYN LLOYD yn brenhinol ymhelaethu

ADRODDIAD LLAWN

O HANES

YMWELIAD Y FRENHINES



A'R BALA, AWST 23ain, 1889.

PRIS CEINIOG.

DAVIES AC EVANS, SWYDDFA'R "SEREN" BALA.

TRWY garedigrwydd Mr Emrys Rowlands, Cerrigydrudion, cefais gopi o adroddiad llawn am hanes ymweliad Victoria â chylch Edeirnion. Argraffwyd hwn yn arbennig ar y pryd gan Swyddfa'r *Seren*, y Bala.

Gallaf yn awr chwanegu at fy mraslun yn y rhifyn diwethaf o'r *Casglwr* ddetholiad o fanylion ynglŷn â'r holl sioe. Yn gyntaf; rhyw Syr Theodore Martin* o ardal Llangollen oedd wedi ei gwahodd i'r fro ond 'doedd ei blas ef ddim digon helaeth i gynnwys Vic a'i holl osgordd, ac felly trefnwyd i bawb fynd i'r Pale, a oedd ar y pryd yn adeilad mawr newydd pedair ar bymtheg oed.

Bu'r paratoadau yn ddyfal. Stesion Llandderfel i gychwyn:

> *Gwnaed ynddi gyfnewidiadau pwysig . . . a'r cyfan ar gost y rheilffordd. Y mae y platfform wedi ei wneyd yn hirach o lawer, ychwanegwyd pob pen iddo, ac y mae wedi ei godi ryw droedfedd yn uwch fel nad oes disgyniad o'r tren iddo.*

I ddisgwyl y dduwies, am wyth y bore:

> *Yr oedd pobl y Llan i gyd mewn Stage ar eu pennau eu hunain, a chyfeillion eraill wedi anturio codi un i'r dyeithriaid. Gellid gweld ugeiniau o bobl yn mhob ochr yn disgwyl yn bryderus am ymddangosiad y tren. Ryw dri munud cyn 8, gwelid y Gerbydres Frenhinol yn y pellder yn dyfod yn arafaidd i'r stesion . . . Cynhwysai unarddeg o gerbydau a dwy Van, perthynol i'r London & North Western Railway.*

Yn y plas ei hun, mawr hefyd oedd y cyffro:

> *Y mae yn y Pale er dechreu yr wythnos tuag ugain o weision yn paratoi ac yn trefnu, a chludwyd i'w canlyn liaws mawr o bethau at eu pwrpas. Dydd Mercher, daeth yno amryw o geffylau a cherbydau ei Mawrhydi.*

Trafferth, wrth gwrs, ond 'roedd yr holl gylch yn mynd i elwa arno:

> *Newydd boddhaus i bawb, yn ddiau, ydyw clywed fod bron pob lluniaeth yn cael ei brynu yn y Bala a'r gymdogaeth. Clywsom enwi y rhai canlynol; — cig, gan Mr David Evans; Grocery gan Mr John Parry; Greengrocery gan Mr Isaac Jones; bara, The Queens, Corwen; pytatws, llaeth, hufen ac ymenyn gan Mr Robert Ellis Brynbwlan. A dywedir mai ffermwyr Sir Ddinbych sydd i ofalu am fwyd i'r ceffylau.*

A beth am yr 'enterprise' yma:

> *Y mae Mr W. Owen, White Lion Hotel, wedi llogi un ar bymtheg o geffylau heirdd, pedwar o ragfarchodwyr, a chwech o gerbydau ysblennydd o Lerpwl, gan ei fod wedi derbyn gorchymyn i fod yn barod at alwad y Frenhines yn rhai o'i theithiau tra yr erys yn y Pale.*

Ac wrth gwrs, 'roedd y 'diogelwyr' yn lleng:

> *Heblaw y gwarchodlu sydd i'w chanlyn hi bob amser, y mae o amgylch y Pale wyth o heddgeidwaid Llundain, a thu allan i'r terfynau mae 16 o rai y sir.*

Nid amser hwylus i botshiar afon na giâm!

Ar y ffordd o'r stesion i'r plas: *'Cafodd pawb olwg ragorol arni, ac yn ateb i'r croesaw a godid pan y pasiai, gostyngai ei phen i gydnabod'.* Neis ynte!?

* * * *

YN Y BALA, bu sioe na fu rotsiwn beth. *'Y mae Decoration mawr wedi bod yn y dref'*, meddai'r Adroddiad, a'r White Lion yn gofiadwy:

> *Ceir y ffrynt wedi ei illuminatio yn y fath fodd na welwyd ei gyffelyb erioed yn y Bala o'r blaen. Bydd y goron, mewn ffram brydferth wedi ei oleuo gyda nwy yn edrych yn brydferth iawn; ac ar yr ochr chwith ceir y ddwy lythyren V.R. wedi eu goleuo, a choron gyffelyb yn y canol.*

Mae'n siŵr na bu dim byd tebyg yn y dre hyd yn oed yn nyddiau'r pregethu mawr ar y Grîn pan oedd John Elias yno. 'Roedd hi'n haws 'illuminatio' coron yr hen Gwîn na'r goron nefol, decini.

Heblaw hyn, yr oedd bwâu wedi eu gosod mewn amryw fannau dros y ffordd fawr; 'Arches', chwedl ein gohebydd:

> *Yr Arch oreu yn ddiamau ydyw eiddo y Rhiwlas, sydd yn ymyl yr entrance yn ngwaelod y bont. Y mae wedi ei gwneyd o grug, (sic) ac edrycha yn ardderchog. Medda dri bwa . . . Yn gwynebu ei Mawrhydi pan yn dod i'r Bala, y mae y geiriau, 'Rhiwlas greets you' . . . Yr ochr arall caiff 'Llongyfarchiadau y Rhiwlas' i'w chyfarfod pan y dychwel o Glanllyn.*

Rhiwlas, sylwer, nid Penllyn na'r Bala. Rhyfedd na ddaeth teitl marchog neu farwnig i'r Preisiaid ar ôl y fath ymdrech. Ddaeth dim.

Beichio'r *Casglwr* fyddai i mi sôn am bob dim o'r hŵ-hâ fu yn y Bala: y cyflwyno torchau blodau a dod ag urddasolion Meirionnydd ac Arfon i sylw'r Fanon; y darllen 'Anerchiad' croeso a'r Gwarchodlu yn dangos arfau; y canu fersiwn Cymraeg o'r hen 'God Save . . .'

I rai merched o bwys a sylwedd, hwn oedd diwrnod mwyaf eu bywyd. Cofnodir eu rhan:

> *Yna daeth Mrs Price, Rhiwlas yn mlaen, a thros foneddigesau y Bala a'r gymdogaeth, cyflwynwyd i'r Frenhines Ddarlun o Lyn y Bala a dynwyd gan Mr E. A. Pettitt, Abermaw. Gyda Mrs Price yr oedd Mrs Dr Edwards, Bala; Mrs Dr Parry, Bala a Miss Saunderson, Bala.*

Fedrwch chwi ddychmygu'r cyrtsio llaes!? Tybed ble mae darlun Mr Pettitt erbyn hyn yn casglu llwch? Gweddw'r Dr Lewis Edwards oedd y Mrs Dr Edwards a gweddw Dr John Parry, golygydd *Y Gwyddoniadur Cymreig* oedd y Mrs Dr Parry a chwaer i'r enwog Thomas Gee. Os nad wyf yn methu, un o deulu Robert Saunderson, argraffydd Thomas Charles, oedd Miss Saunderson hithau.

OND RHAID gadael y manylion hyn sy'n ein atgoffa braidd o ambell bennod o'r *Pickwick Papers*. O'r Bala, aeth yr hen wreigen ymlaen i Lanllyn, yn un o gerbydau Owen y White Lion, debyg. Plas i saethwyr, 'shooting lodge' ydoedd bryd yma a Syr Watkin oedd ei berchennog. (Heddiw yr Urdd biau'r lle.)

Ni ddywedir a oedd Syr Watkin yno ei hun i groesawu'r hen fodan; 'roedd ei statws a'i gyfoeth yn llawer uwch na neb o ysweiniaid Penllyn; yn ddigon uchel, efallai, i fedru fforddio *peidio* bod yn wyddfodawl.

Tra'n ei disgwyl yn ôl i'r Bala, 'roedd Côr (? Llandderfel) a Seindyrf yn diddanu'r werin a'r miloedd. Mae'n siŵr y byddai'r rhan hon o bennill a genid ar alaw Gwŷr Harlech, wrth fodd Hywel Teifi:

> **Gwylaidd wyneb Gwalia**
> **Lawen ymoleua,**
> **Yn y gwawl olwynog gwyn**
> **Sy'n dilyn pen Britannia;**
> **Agoriadau'r ddaear iddi,**
> **Gwened haul y nefoedd arni,**
> **Breichiau dyn a Duw fo dani**
> **Arglwydd cadw hi.**

Y nos Sul ddilynol, bu'r Côr hefyd yn canu 'nifer o donau cysegredig' eto yn y Pale. Y tonau oedd 'Salome, Tiberias, Joanna, Twrgwyn, Dusseldorf a Llangoedmor'. Cyweirnod llai ymosodol na'r hyn fu ganddynt nos Wener. Am y noson honno, dywedir:

> *Y mae y boneddigesau i wisgo mewn dillad Cymreig gyda het coryn (sic) uchel, y rhai a werthid iddynt gan Mr H. Ll. Davies, Regent House.*

Plŷg da i faelfa Regent House!

Yn rhyfedd iawn, nid yw'r Adroddiad yn sôn gair am gôr telynau John Roberts o'r Drenewydd. Anodd deall paham: tybed ai am fod gwaed sipsiwn ynddynt ac na fynnai mânsnobyddion pwysigion Penllyn arddel hynny? Neu ynteu bod yma rhyw is-lais o'r hen gythrel canu?

I gloi'r crynodeb hwn, cystal imi ddyfynnu pennill o folawd y Côr o dan fatwn William Thomas Jones, Brynmelyn, Llandderfel:

> **Tros ein gweddw wen Frenhines,**
> **Ffrydied gweddi o bob mynwes,**
> **O ddyfnderoedd calon gynnes,**
> **Arglwydd cadw hi . . .**

Wel, na; dyna ddigon: 'rwy'n dechrau clywed chwyrniadau go hirllaes o gyfeiriad rhai o ddinasyddion hen dre y Bala heddiw, a 'dyw Saunders ddim gyda ni mwyach i'n hannog i estyn 'croeso siriol' pan fo brenhines o Windsor yma gyda ni.

* Syr Theodore Martin (1816-1909). Daeth i fyw i Bryntysilio, ger Llangollen, yn 1861. Cyhoeddodd gofiant i'r Tywysog Albert, gŵr Victoria yn bum cyfrol rhwng 1875 a 1880. Cyfieithodd lawer o weithiau clasurol — Calculws, Horas, Fyrsil a hefyd gweithiau o'r Almaeneg ac Eidaleg yn cynnwys *Faust* (Goethe) a'r *Vita Nuova* (Dante). Albanwr ydoedd.